

YR HYN Y BYDD CYFRAITH HILLSBOROUGH YN EI GYFLAWNI

01

NEWID DIWYLLIANT AR DRAWS AWDURDODAU CYHOEDDUS

Mae Cyfraith Hillsborough yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus ledled y DU fynd ati bob amser i weithredu safonau uchel mewn perthynas ag ymddygiad moesegol, ynghyd â dyletswydd gonestrwydd, ymhlith pawb sy'n gweithio iddynt.

Rhaid i awdurdodau cyhoeddus fabwysiadu a gorfodi cod ymddygiad moesegol, sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r cod, a sicrhau ei fod ar gael yn gyhoeddus.

Mae Cyfraith Hillsborough yn cyflwyno trosedd newydd, sef 'camarwain y cyhoedd'. Os bydd swyddog cyhoeddus yn twyllo'r cyhoedd, ac os bydd yn gwybod (neu os dylai wybod) bod ei weithredoedd yn 'ddifrifol o amhriodol', gallai wynebu hyd at ddwy flynedd yn y carchar.

02

FFORDD GYFLYM AC EFFEITHIOL O GYRRAEDD Y GWIRIONEDD MEWN YMCHWILIADAU

Mae Cyfraith Hillsborough yn cyflwyno 'dyletswydd gonestrwydd a chymorth' er mwyn ei gwneud yn ofynnol i swyddogion cyhoeddus ledled y DU weithredu mewn ffordd onest, dryloyw a didwyll wrth gyflwyno tystiolaeth mewn cwestau ac ymchwiliadau.

Hefyd, mae'r ddyletswydd gonestrwydd a chymorth yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus rannu'r pethau a wyddant am eu gweithredoedd neu eu diffyg gweithredu ar ddechrau unrhyw drafodion.

Mae Cyfraith Hillsborough yn cyflwyno trosedd newydd, sef methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd gonestrwydd a chymorth. Os bydd methiant o'r fath yn fwriadol neu'n ddi-hid, gallai swyddogion cyhoeddus wynebu hyd at ddwy flynedd yn y carchar, dirwy, neu'r ddau.

03

CYDRADDOLDEB O RAN CYNRYCHIOLAETH GYFREITHIOL

Mae Cyfraith Hillsborough yn cyflwyno "amcan hollbwysig" newydd o ran sicrhau y gall pobl mewn profedigaeth a theuluoedd sydd wedi dioddef camwedd gymryd rhan yn llwyr mewn cwestau ac ymchwiliadau, yn ogystal â chael cynrychiolaeth gyfreithiol yn y cwestau a'r ymchwiliadau hynny.

Mae Cyfraith Hillsborough yn rhoi hawl i deuluoedd sydd mewn profedigaeth yng Nghymru a Lloegr gael cyllid Cymorth Gyfreithiol pan fônt yn ceisio'r gwirionedd gan awdurdodau cyhoeddus ynglŷn â'r hyn a ddigwyddodd.

Mae Cyfraith Hillsborough yn cyflwyno dyletswyddau newydd i wella'r modd y bydd awdurdodau cyhoeddus a'u timau cyfreithiol yn ymddwyn mewn cwestau ac ymchwiliadau.